# CYNGOR SIR

## DYDD MERCHER, 1AF MAI, 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| F. Akhtar | S.M. Allen | K.V. Broom | C.A. Campbell |
| J.M. Charles | D.M. Cundy | S.A. Curry | C.A. Davies |
| T.A.J. Davies | G. Davies | H.L. Davies | I.W. Davies |
| J.A. Davies | K.Davies | S.L. Davies | W.R.A. Davies |
| E. Dole | J.S. Edmunds | P.M. Edwards | H.A.L. Evans |
| L.D. Evans | W.T. Evans | A.L. Fox | S.J.G. Gilasbey |
| C.J. Harris | P. Hughes-Griffiths | T.M. Higgins | J.K. Howell |
| P.M. Hughes | A. James | J.D. James | R. James |
| D.M. Jenkins | G.H. John | C. Jones | B.W. Jones |
| D. Jones | H.I. Jones | T.J. Jones | A. Lenny |
| M.J.A. Lewis | K. Lloyd | K. Madge | S. Matthews |
| A.S.J. McPherson | E. Morgan | D. Nicholas | B.D.J. Phillips |
| J.S. Phillips | D. Price | J.G. Prosser | B.A.L. Roberts |
| E.M.J.G. Schiavone | H.B. Shepardson | A.D.T. Speake | L.M. Stephens |
| B. Thomas | E.G. Thomas | G.B. Thomas | J. Tremlett |
| A.Vaughan Owen | D.T. Williams | D.E. Williams | J.E. Williams |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | | |
|---|---|---|
| Mr M. James | - | Prif Weithredwr |
| Mrs L. Rees-Jones | - | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Mr P. Thomas | - | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Mr D. Richards | - | Rheolwr Datblygu Sefydliadol |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:-**
Mr M. Williams o SHL

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 2.00 yp - 3.55 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen, D.C. Evans, R. Evans, D. Harries, J.P. Jenkins, G. Jones, A.G. Morgan, S. Najmi a D. Thomas.

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Estynnwyd llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Liam Bowen a'i wraig, Bethan, ar eu priodas yr wythnos ddiwethaf;
- Mae mab y Cynghorydd Penny Edwards yn cymryd rhan mewn ras feicio o ogledd Cymru i dde Cymru i godi arian ar gyfer Canolfan Ganser Felindre, a dywedwyd bod ffurflenni noddi yn cael eu dosbarthu yn y cyfarfod;

- Roedd y Cynghorydd Amanda Fox yn gwerthu bathodynnau esgidiau glaw melyn i godi arian ar gyfer yr RNLI.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. GWAHARDD Y CYHOEDD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. NODIADAU PANEL LLUNIO RHESTR FER - 3YDD ERILL 2019

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, oherwydd y byddai'r ymgeiswyr yn disgwyl yn rhesymol na fyddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd ac felly bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

**PENDERFYNWYD bod Nodiadau Gweithredu'r Panel Rhestr Fer a gynhaliwyd ar 3 Ebrill, 2019 yn cael eu derbyn.**

[NODER: Gadawodd Mr M. James, y Prif Weithredwr a Ms L. Rees-Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith y cyfarfod bryd hyn.]

## 5. DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR A ARGYMHELLIR FEL A GANLYN:-

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 3 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, oherwydd y byddai'r ymgeiswyr yn disgwyl yn rhesymol na fyddai eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu i'r cyhoedd ac felly bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

### 5.1. DERBYN ADBORTH GAN BWYLLGOR PENODI A MEWN PERTHYNAS Â'R YMGEISWYR A ARGYMHELLIR.

Rhoddodd Cadeirydd Pwyllgor Penodi "A" adborth i'r Cyngor mewn perthynas â'r broses ddethol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn gynharach y diwrnod hwnnw pryd y penderfynwyd bod dau ymgeisydd yn addas i'w penodi'n Brif Weithredwr y Cyngor ac felly roedd wedi penderfynu argymell i'r Cyngor bod y ddau ymgeisydd hynny yn mynd ymlaen i gam olaf y broses ddethol ac yn cael eu cyfweld gan y Cyngor Llawn.

## 5.2. DERBYN CYFLWYNIADAU GAN YR YMGEISWYR A ARGYMHELLIR A CHYFLWYNO CWESTIYNAU GAN ARWEINWYR GRWP.

Rhoddodd yr ymgeiswyr a argymhellwyd gyflwyniad 10 munud yr un ac yn dilyn hynny cafodd Arweinwyr y pedwar grŵp gwleidyddol y cyfle i ofyn cwestiwn i bob ymgeisydd.

## 5.3. DERBYN ADBORTH GAN S.H.L. MEWN PERTHYNAS Â PHERFFORMIAD YR YMGEISWYR A ARGYMHELLIR YN Y CANOLFAN ASESIAD.

Cafodd y Cyngor adborth gan Mr Mark Williams o SHL ar berfformiad pob un o'r ymgeiswyr a argymhellwyd yn ystod proses y Ganolfan Asesu.

## 5.4. I WNEUD PENODIAD Y PRIF WEITHREDWR/PENNAETH Y GWASANAETH CYFLOGEDIG.

Yn dilyn cwblhau'r broses gyfweld

**PENDERFYNWYD ar ôl cynnal pleidlais benodi Mrs W. S. Walters i swydd y Prif Weithredwr/Pennaeth y Gwasanaeth Taledig.**

[NODER: Galwyd Mrs Walters yn ôl i'r cyfarfod er mwyn rhoi gwybod iddi am y penderfyniad, a chadarnhaodd ei bod yn derbyn y swydd.]

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**